# Biopsi Nod Lymff

# Cyngor Rhyddhau

**Biopsi nod lymff:**

Biopsi nod lymff yw lle mae rhan neu’r nod lymff cyfan yn cael ei dynnu o’r gwddf. Yna caiff ei anfon at batholegydd er mwyn cael golwg agos o dan ficrosgop.
Mae nodau lymff yn organau hirgrwn bach wedi'u lleoli o gwmpas y corff ond maent yn cael eu crynhoi mewn niferoedd mawr yn ardaloedd y ceseiliau, yr afl a'r gwddf. Mae nodau lymff yn rhan o'r system imiwnedd ac yn helpu i ymladd heintiau.
Gellir gwneud biopsïau nodau lymff o dan anesthetig lleol (chwistrelliad i sicrhau fod yr ardal yn ddideimlad) neu anesthetig cyffredinol (rhoddir cyffuriau i wneud y claf yn anymwybodol).
Gwneir toriad dros neu yn agos at y chwydd ac unwaith y bydd y nod lymff wedi ei ddarganfod caiff rhan neu'r cyfan ohono ei dynnu. Yn ystod y driniaeth, gellir serio-gwaedlestri (electrocautery) i atal unrhyw waedu. Mae rhai cleifion angen gosod draen fel rhan o'r driniaeth. Bydd y draen hwn yn cael ei dynnu cyn eich rhyddhau o'r ysbyty. Mae'r clwyf yn cael ei gau gyda naill ai pwythau sy’n toddi neu bwythau na ellir eu toddi.

**Beth i ddisgwyl wedi’r llawdriniaeth:**

Os defnyddir pwythau na ellir eu toddi, efallai y bydd angen tynnu’r rhain ar ôl wythnos. Bydd hyn yn cael ei drafod gyda chi ar ôl y llawdriniaeth a'i nodi ar eich llythyr rhyddhau.
Nid yw’n anarferol teimlo'n fwy blinedig nag arfer am hyd at wythnos ar ôl eich llawdriniaeth, os ydych chi'n rhiant neu'n ofalwr bydd angen rhywfaint o gefnogaeth arnoch chi yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'n bwysig eich bod chi'n bwyta ac yfed fel arfer.

Sicrhewch fod safle eich clwyf yn cael ei gadw'n lân ac yn sych. Osgowch ddefnyddio colur a hufen â phersawr. Ar ôl un mis, tylinwch eich craith yn ofalus gyda hufen lleithio di-bersawr dwy neu dair gwaith y dydd.

**Cymhlethdodau posibl a chyngor yn dilyn llawdriniaeth**

Gwaedu: mae'r risg o waedu yn isel ac mae'n bwysig osgoi unrhyw weithgarwch egnïol yn y cyfnod yn union wedi’r llawdriniaeth er mwyn leihau'r perygl hwn. Gallai gwaedu arwain at hematoma (ceulad gwaed) yn ffurfio o dan y clwyf. Efallai y bydd angen llawdriniaeth bellach arnoch i atal y gwaedu a chael gwared ar y ceulad.

Heintiad: mae perygl o gael heintiau gydag unrhyw driniaeth lawfeddygol, ond cyn belled â bod y clwyf yn lân, mae'r risg yn fach iawn.

**Cyfnod adfer:**
Efallai y byddwch chi'n dioddef rhywfaint o boen wrth lyncu oherwydd y llawdriniaeth a'r tiwb anesthetig. Mae hyn yn normal a dylai ddatrys ar ôl 72 awr.
Gall anystwythder yn y gwddf ddigwydd hefyd a dylech symud eich pen o fewn eich terfynau arferol i atal anystwythder.

Dylech gymryd o leiaf 2 wythnos i ffwrdd o'r ysgol/gwaith er mwyn dod dros y llawdriniaeth. Gellir darparu nodyn salwch cyn eich rhyddhau o'r ysbyty os oes angen.

Bydd gennych graith. Bydd hyn yn edrych yn goch ond bydd yn pylu yn araf dros gyfnod amrywiol o amser rhwng ychydig fisoedd ac ychydig flynyddoedd. Mae rhai pobl yn cynhyrchu craith Keloid (wedi ei godi/â lliw uchel). Mae hyn oherwydd eu math o groen; mae'n anrhagweladwy cyn y llawdriniaeth a gellir ei drin yn ddiweddarach o bosib. Bydd angen i chi amddiffyn eich craith rhag golau haul uniongyrchol am o leiaf 18 mis; fe'ch cynghorir i ddefnyddio eli atal haul cyfan.

**Ôl-driniaeth:**
Dylech gael eich gweld yn y clinig claf allanol tua 2 i 4 wythnos ar ôl llawdriniaeth. Ar yr adeg yma dylai profion labordy ar eich nodau lymff fod ar gael. Bydd eich llawfeddyg hefyd yn gallu adolygu'ch gwddf ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Os na fyddwch chi'n derbyn yr apwyntiad hwn, ffoniwch y swyddfa archebu cleifion allanol ar 01495 765055.

**<u>GWYBODAETH RHYDDHAU MEWN ARGYFWNG</u>**

**09:00 i 17:00 Llun-Gwener (ac eithrio gwyliau banc):** Cysylltwch ag ystafell driniaeth Clust, Trwyn a Gwddf (ENT) ar 01633 234018

**Ar ôl 17:00/dros nos (oedolion)**: Ward C0 01633 493926.

**Ar ôl 17:00/dros nos (plant):** Ward C1 01633 493609.

**<u>Mewn achos brys oherwydd methu anadlu, ewch i'ch Adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf. Gall hyn ddigwydd gyda gwaedu neu chwyddo yn eich gwddf, yn arbennig felly yn ystod y 48 awr gyntaf wedi'r llawdriniaeth.</u>**

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English"**